UBC BUW

Y Negesydd

Rhif 24

Haf 2022

www.ubc.cymru

Croesawu Rosa i'r Tabernacl

Cyfnod o newid?

Symud ymlaen o gyfnod y Covid



Croeso...

Golygyddol 2

Nodiadau Cenhadol 3

Rosa i'r Tabernacl 4

Defnyddio ein hadeiladau 5

Newyddion Cymru 6

Newyddion y Byd 7

Dod i nabod: Andrew Ware 8

Y mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn anodd yn lleol i'r Cymanfaoedd ac yn genedlaethol. Er holl brofiadau galarus Covid mae'n rhaid diolch bod technoleg wedi bod yn fodd i ateb heriau'r pandemig a sicrhau llwyddiant ein gwaith ar bob lefel. Ar ôl cael fy nghyflwyno fel Is-Lywydd yr Undeb fe ddechreuodd ein pwyllgor lleol ar y trefniadau. Y bwriad oedd creu rhaglen ddeniadol er mwyn croesawu pawb i Dreforys ac i Bontlliw ond daeth cyfyngiadau'r Clo Mawr a bu'n rhaid gohirio popeth. Felly, fe barhaodd yr is-lywyddiaeth am flwyddyn ychwanegol a'r gofid efallai na fyddai byth gyfle i ddod at ein gilydd. Ac yna ymddangosodd y gair 'hybrid' - cyfuniad o'r go iawn a'r rhithiol a bu'n bosib cynnal Oedfa'r Llywydd gyda chynulleidfa fach yn Seion Newydd y llynedd.

Rwy'n cyffesu nad wy'n ffan mawr o gyfrifiaduron ond rwyf wedi dod i ddeall a defnyddio Zoom a Teams dros y misoedd ac yn gwerthfawrogi y technegau rhithiol sydd wedi ein cadw gyda'n gilydd. Ar gyfer gwaith yr Undeb a'r pwyllgorau mae na werthfawrogiad ei bod yn bosib cyflawni'r gwaith heb adael y tŷ. Ond eto yn fy marn i does dim i'w gymharu â chwrdd gyda'n gilydd unwaith eto i fod â hen gyfeillion, mwynhau'r oedfaon, y trafodaethau a'r elfen gymdeithasol. Ar y llaw arall i gydnabod manteision Zoom, cafwyd y cyfle yn ystod y flwyddyn i ail-feddwl ac adfywio Oedfa Ilston. Braf oedd dangos prydferthwch y fangre arbennig hon ym Mhenrhyn Gŵyr i glywed am waith a chenhadaeth John Miles a'i glymu i mewn i'r genadwri sydd ar waith heddiw.

Thema blwyddyn fy llywyddiaeth oedd 'Awr Duw yn Galw', yn seiliedig ar yr hen gloc yn festri Seion Newydd. Beth yw awr? 360 o eiliadau, 60 munud. Gwelwn amser fel rhywbeth penodol ond mae Awr Duw yn dragwyddol – yn ein herio ni heddiw fel mae wedi gwneud i'n cyd-Gristnogion ar hyd y canrifoedd. Yn yr unfed ganrif ar hugain a'r cyfnod Ôl-Covid beth yw'r her i ni? Beth mae Awr Duw yn ei ddisgwyl wrthym ni? Y mae'r gwaith o ledaenu'r dystiolaeth Gristnogol yn wahanol efallai yng nghefn gwlad Cymru i Dreforys ar gyrion dinas Abertawe. Y mae bod yn aelod o'r holl bwyllgorau wedi agor fy llygaid at y gwaith aruthrol sydd ar ysgwyddau'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'r holl staff yn y swyddfa. Eu tasg yw sicrhau llwyddiant y teulu Bedyddiedig ar draws Cymru. Wrth gwrs mae gennym draddodiadau ieithyddol gwahanol ond yr un yw'r nôd - mae Awr Duw yn ein galw i ledaenu'r Newyddion Da am Ei gariad a'i ofal ohonom ac am Ei anrheg amhrisiadwy ym mherson Ei fab Iesu Grist, yr hwn a'm dysgodd am gariad ac aberth a'n rhyddhau o'n pechodau.

Rwy'n gorffen wrth eich atgoffa am nodweddion seren wib - mae'n ymddangos ac wedyn yn diflannu mewn byr amser. Mae'r seren wedi bod yn disgleirio dros Dreforys am flwyddyn ond nid yw'n diflannu yn gyfangwbl oherwydd y mae'r llywydd newydd yn blentyn Treforys hefyd!

Aldyth Williams, Llywydd (adain Gymraeg hyd haf 2022)

Nodiadau Cenhadol - Ydy popeth wedi newid?

Mae'r pandemig, gobeithio, yn cilio i'r gorffennol, ond yn araf deg mae'n dod yn amlwg y gallai rhai o'i effeithiau aros gyda ni am amser hir eto. Mae hyn yn cynnwys pethau mor amrywiol â phobl yn gweithio oddi cartref, newid mewn arferion siopa a thwf mewn unigrwydd heb sôn am y miliynau sydd bellach yn dioddef o Covid hir. Byddai'n syndod pe na baem yn gweld effeithiau parhaus ar ein heglwysi hefyd ar ôl un o'r ergydion mwyaf i'n ffordd o fyw a gweithio mewn degawdau. Gadewch i ni fod yn onest gyda ni ein hunain – mae llawer ohonom wedi blino ac yn dal i geisio dod dros rhai o'r profiadau hyn.

Mae ein harolwg diweddar o eglwysi ar draws yr Undeb (a diolch i bawb am eich ymatebion) wedi dangos rhai o'r patrymau a'r tueddiadau i ni. Mae nifer fwy o eglwysi nag erioed o'r blaen (20 ar y cyfrif diwethaf) wedi penderfynu cau eleni, ar ôl gostyngiad yn 2020 a 2021, ac mae llawer wedi dweud wrthym eu bod yn gweld y dyfodol yn ansicr. Adlewyrchir hyn yn y darlun cenedlaethol, gydag adroddiadau yn y cyfryngau am y modelu a wnaed gan John Hayward ym Mhrifysgol De Cymru sy'n dangos y bydd llawer o enwadau (gan gynnwys Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yr Annibynwyr a'r Eglwys yng Nghymru) wedi dod i ben erbyn canol y 2040au. Er bod ein cyfradd ddirywiad yn arafach na hyn yn gyffredinol, yn ystadegol, rydym yn dilyn llwybr tebyg. Ond ar yr un pryd, mae pob sefyllfa'n wahanol; nododd rhai yn ein harolwg fod 'pethau ar i fyny gyda ni' tra bod eraill wedi bod yn arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o gyfarfod ac estyn allan i'w cymuned (gweler yr adran 'newyddion' ar ein gwefan am sawl enghraifft o hyn yn Llangefni, Tref-y-clawdd a Chwmcarn).

Mae mabwysiadu agwedd sy'n agored i newid yn ymateb doeth i oes gythryblus, debyg iawn.

Mae llawer ohonom - gan gynnwys pobl o bron i 50 o eglwysi ar draws dwy adain yr Undeb - wedi elwa o'r mewnbwn ar y cyrsiau Ethos a Darganfod o dan arweiniad Cam Roxburgh. Nid diben hyn yw rhoi rhestr syml o gamau i eglwysi eu dilyn ond canolbwyntio ar y galon; beth yw pwrpas yr eglwys? Beth yw hanfodion byw bywyd gyda'n gilydd wrth i ni ddilyn Iesu? Rydym wedi gweld fel mae y mae cenhadaeth yn llifo allan i'r gymuned, y pentref neu'r dref o'r cwestiynau canolog a sylfaenol hyn. Mae hyn i gyd yn broses hirdymor – nid rhyw ateb cyflym!

Felly rydym yn falch iawn o allu cyhoeddi bod Cam wedi cytuno i weithio gyda ni ar gam nesaf y daith, wrth i ni geisio dechrau cymryd camau bach dros y blynyddoedd nesaf i roi'r hyn rydym wedi'i ddysgu ar waith. Byddwn yn cwrdd â'n gilydd unwaith y mis dros zoom, gan ddysgu o Cam a gwrando ar straeon ein gilydd wrth i ni roi cynnig ar bethau newydd yn ein heglwysi. Os oes gennych ddiddordeb neu os hoffech gael sgwrs am y cwrs, e-bostiwch simeon@ubc.cymru neu carwyn@ubc.cymru

Mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd dyfodol tystiolaeth Gristnogol yng Nghymru yn cynnwys capeli llawn fel yn y dyddiau a fu; ond yn y bôn grŵp o gredinwyr fu'r eglwys erioed. Grŵp o bobl sydd wedi ymrwymo i'w gilydd ac i'r Arglwydd Iesu, ac yn rhannu'r newyddion da gyda'r rhai o'u cwmpas. Er popeth, nid yw hynny wedi newid.

Carwyn Graves

Croesawu Rosa i'r Tabernacl

'Doeddwn i ddim yn chwilio i adael fy ngwaith yma' meddai Rosa dros goffi mewn caffi ym mhentre Nhonteg ar gyrion Caerdydd. 'Roeddwn wedi rhyw ddisgwyl yr arhoswn yma nes i mi ymddeol, a dyma lle dyn ni'n byw fel teulu – rydyn ni'n teimlo fel rhan o'r gymuned.' Ond roedd Duw yn agor drws arall a hynny yn y lle cynta' trwy ddathliadau dauganmlwyddiant capel yng nghanol y ddinas.

Cafodd Rosa wahoddiad i bregethu ar ddiwedd 2021 fel rhan o'r dathliadau yn Tabernacl, Caerdydd a dyma hi'n penderfynu gofyn i'r gynulleidfa sut fath o eglwys fyddai yno ymhen can mlynedd arall? Ond ar ôl hynny fe gysylltodd Rhys ab Owen, un o'r diaconiaid, a gofyn iddi a fyddai'n fodlon cwrdd â'r swyddogion am sgwrs. Roedd yr eglwys eisiau gwneud mwy i gyrraedd y gymuned, yn chwilio am weinidog newydd ac eisiau barn Rosa yn sgil y gwaith yn Nhonteg.

'Roeddwn i'n hapus i gael sgwrs gyda nhw, wrth gwrs; ond i mi doedd dim mwy na hynny i'r peth. Ond pan oeddwn i yno yn gwrando arnyn nhw, dyma fi'n teimlo Duw yn corddi rhywbeth ynof fi – pam na allwn fynd atyn nhw fel gweinidog?'

Daeth cyfarfod arall, a hefyd breuddwyd annisgwyl i Rosa a oedd fel petai'n cadarnhau'r ymdeimlad cynyddol y byddai'n iawn iddi adael Salem. 'Ac roedd cwestiynau'r diaconiaid yn Tabernacl mor dda pan gyrddais â nhw! Pawb yn amlwg eisiau dirnad arweiniad Duw, ac yn pwysleisio bod rhaid i'r eglwys wasanaethu'r bobl o gwmpas yn nerth yr efengyl ac nid jest gweithredu fel clwb cymdeithasol – er mod i'n gwerthfawrogi'r ffaith eu bod nhw'n caru ac yn mwynhau cwmni ei gilydd!'

Dilynwyd y broses gan gynnwys pregethau i brofi galwad, ac erbyn y bleidlais roedd Rosa'n gobeithio y byddai'r eglwys yn ei galw. Roedd clywed mai unfrydol oedd y canlyniad fel petai'n arwydd clir arall o arweiniad Duw yn y mater. Fel meddai Rhys ab Owen, un o ddiaconiaid yr eglwys, ''Rydym wrth ein bodd bod Duw wedi arwain Rosa i fod y 11eg gweinidog ar y Tabernacl. Mae'r gynulleidfa gyfan yn edrych ymlaen at bennod newydd cyffrous.'

Beth fyddai'r her fwya, gofynnom iddi dros goffi. 'Wel, er fy mod wedi dysgu'r Gymraeg ac wedi gwasanaethu fel gweinidog ar gapel Cymraeg, mae yna bethau am y diwylliant dwi ddim wedi deall eto! Ac mae cwestiwn yr iaith yn un fawr i eglwys fel Tabernacl yng nghanol dinas Caerdydd. Sut gallwn gyrraedd cymunedau'r ddinas trwy'r ffaith ein bod yn eglwys Gymraeg ein hiaith?'

Mae'n pwysleisio mai rhywbeth i'r eglwys i weddïo iddo a dirnad gyda'i gilydd fydd y weledigaeth ar gyfer y ffordd ymlaen. 'Ond mae yna lawer o botensial o ran ein lleoliad yng nghanol y ddinas, a'r anghenion sydd yno. Does dim un eglwys anghydffurfiol arall yn y canol erbyn hyn o blith yr enwadau i gyd. Felly oes ffordd i ni gadw'r drysau ar agor trwy'r wythnos? Cynnig rhywbeth gwahanol iawn - noddfa dawel yng nghanol prysurdeb y ddinas, a gwahodd pobl i weddïo?' Beth bynnag am y ganrif i ddod, mae blynyddoedd nesa Tabernacl yr Ais yn llawn potensial. Boed bendith Duw ar y gwaith!

Bydd gwasanaeth sefydlu Rosa Hunt fel gweinidog Tabernacl, Caerdydd yn cymryd lle ar ddydd Sadwrn 17 Medi am 3yp.

Gosod seiliau newydd...

Mae gan Gorfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru weledigaeth newydd ar gyfer adeiladau eglwys sy'n cau – un all osod seiliau ar gyfer tystiolaeth Fedyddiedig yng Nghymru i'r dyfodol.

Ers degawdau bellach, pan fydd achos eglwys yn dirwyn i ben, yr arfer yw bod Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru wedi gwerthu adeilad yr eglwys. Ond effaith hyn yn yr hir dymor yw ein bod wedi gwerthu asedau – weithiau am bris gymharol isel – a cholli cyfleon ar gyfer cenhadaeth a'r dyfodol wrth wneud. 'Mae ychydig fel gwerthu creiriau'r teulu,' meddai Helen Wyn, un o swyddogion y Gorfforaeth. 'Mi all wneud synnwyr yn y tymor byr, ond os ydych chi eisiau meddwl am y degawdau sydd i ddod, siawns bod ffordd well o ddefnyddio'r eiddo?'

Yn sgil hyn, mae aelodau'r Gorfforaeth wedi datblygu strategaeth newydd, sy'n gofyn am gynnal asesiad potensial ar bob adeilad sy'n gymwys.[1] Yn ddelfrydol, lle bydd eglwys yn ystyried cau byddant yn rhoi gwybod i'r Undeb o flaen llaw, a bydd y Gorfforaeth yn asesu potensial cenhadol a photensial masnachol yr adeilad – gyda'r ochr genhadol yn cael blaenoriaeth bob tro. 'Oherwydd ffactorau o bob math, efallai cyn lleied ag un mewn pob deg safle y bydd modd i ni gadw,' esbonia Helen Wyn, 'ond y peth allweddol yw na fyddwn bellach yn gwerthu dim byd cymwys heb asesu'r potensial yn fanwl yn gyntaf.'

Mae'r potensial y gellid ei hadnabod yn eang iawn. Ar yr ochr genhadol, gobeithio y bydd modd dal gafael mewn rhai adeiladau ar gyfer gwaith Cristnogol newydd yno yn y dyfodol – boed ar ffurf eglwys, neu rywbeth amgen, cymunedol. Opsiwn arall yw bod adeilad yn medru rhoi cartre ar les i eglwys arall sy'n ddigartre ar hyn o bryd, neu i grŵp cymunedol lleol sydd am ei ddefnyddio ar gyfer ymarfer côr, cylch meithrin ac ati. Wrth gwrs, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r sefyllfa yn lleol er mwyn sicrhau nad ydym yn cystadlu gydag eglwysi eraill lleol ond yn buddsoddi yn hytrach yn yr ardaloedd hynny lle ceir y mwyaf o fudd o wneud.

Mae hefyd potensial masnachol yn perthyn i rai adeiladau – yn dibynnu wrth gwrs ar eu lleoliad a natur yr adeilad. 'Rydyn ni'n archwilio'r posibilrwydd o greu cartrefi i bobl leol mewn cyswllt â rhai safleoedd (boed yn adeilad tŷ capel neu o bosib adeilad capel yn y dyfodol) ar hyn o bryd', meddai Helen Wyn. 'Ac mae'n bosib y bydd rhai llefydd – o gael eu gosod ar y les gywir am gyfnod o flynyddoedd yn medru talu nid yn unig am ei hun ond hefyd dechrau cyfrannu i'r angen dybryd i ariannu gwaith Cristnogol yn ein gwlad i'r dyfodol'.

Cyfrannodd aelodau'r eglwysi yn y gorffennol yn hael i godi'r adeiladau hyn, a ffordd o anrhydeddu hynny hefyd fydd ceisio gwneud defnydd da, gorau gallwn ni, o rai ohonynt i'r dyfodol. Gweledigaeth hir-dymor yw hon felly, a fydd, gobeithio, yn cyfrannu i barhad tystiolaeth Gristnogol Fedyddiedig mewn cymunedau ar hyd a lled ein gwlad.

1 *Nid pob adeilad capel sy'n gymwys – mater cyfreithiol yw hyn yn dibynnu ar bwy sydd yn dderbynydd eitha'r eglwys yn ôl ei gweithredoedd ymhlith pethau eraill.*

Newyddion o blith....
Undeb Bedyddwyr Cymru

Cynhadledd: aduniad deuddydd!

Dair blynedd ers y cynadleddau diwethaf wyneb yn wyneb, roedd hi'n addas iawn bod deuddydd y gynhadledd eleni yn uno gwahanol rannau o deulu'r Bedyddwyr yng Nghymru. Ddydd Gwener 24ain Mehefin gwelwyd urddo'r Parch Dr Densil Morgan yn gyd-Lywydd ein dwy adain iaith (digwyddiad hanesyddol!), tra bod dydd Sadwrn 25ain (a gynhaliwyd mewn partneriaeth gyda SWBA, BMS a Choleg y Bedyddwyr Caerdydd) yn ddiwrnod cwbl ddwyieithog gyda dros 150 o bobl o bob rhan o'r wlad yn ymuno er mwyn treulio diwrnod yn gwrando ar lais Duw gyda'n gilydd.
"Fyddwn i ddim eisiau perthyn i enwad lle'r oedd disgwyl i bawb droedio llinell benodol heb unrhyw gyfle i anghytuno'n onest ac yn gydwybodol.... ac mae ein Datganiad o Egwyddor yn caniatáu'r rhyddid hwn i ni," meddai Densil yn ei anerchiad agoriadol, gan bwysleisio'r cysylltiadau sy'n ein rhwymo gyda'n gilydd tra'n cynnal sofraniaeth pob eglwys leol. Clywsom gan ein gweithwyr tramor a'n gweinidogion newydd am rai o'r arwyddion o fywyd newydd sydd wedi bod yn ymddangos yn barod ar ôl y pandemig wrth i bobl roi cynnig ar bethau newydd o fewn cyd-destun sy'n gyflym seciwlareiddio.

Gallai hyn i gyd fod yn arwydd o waith Duw yn ein plith, thema a wëwyd hefyd drwy ddydd Sadwrn o 'Weddi, Gŵyl a Hwyl'. Roedd rhai sesiynau megis clywed llais Duw drwy ein gilydd, hanes yr eglwys a'r eglwys fyd-eang yn ddwfn a chyfoethog, tra bod eraill yn rhoi cyfle i blant ifanc a hen (!) fwynhau "pêl-droed wedi'i dallu, gwneud y macarena, paentio sidan, crefft yn ogystal â chanu, bwyta hufen iâ ac addoli. Roedd yn ddiwrnod arbennig!"

Misha'n cychwyn gyda Pendref

Ddechrau mis Medi, bydd Misha Pedersen sy'n fyfyriwr yng Ngholeg Bedyddwyr Caerdydd ar hyn o bryd, yn dod yn weinidog nesaf Pentref.

Bydd Steve Wallis, y gweinidog presennol, yn aros yn aelod yn y capel ac mae'n edrych ymlaen at groesawu Misha ac yn gyffrous am yr hyn y bydd Duw yn ei wneud yng ngham nesaf ei waith yn y pentref. Mae pob gweinidog newydd yn adeiladu ar waith y gorffennol tra'n dod â syniadau newydd a ffyrdd newydd o wneud pethau. Dywed Steve fod yr eglwys yn sicr y bydd Misha yn dod ag agwedd newydd tra'n sensitif i'r pethau hynny sy'n werthfawr i gynulleidfa a fu'n addoli ym Mhentref ers degawdau. "Rydym i gyd yn edrych ymlaen at yr hyn y bydd Duw yn ei wneud yn ein plith drwy'r gweinidog newydd," meddai.

Mae Misha yn gyffrous am ei galwad i'r eglwys. "Mae'r croeso rwyf eisoes wedi'i gael gan yr eglwys wedi bod yn gynnes iawn. Edrychaf ymlaen at barhau i feithrin perthynas yn yr eglwys ac o'i hamgylch. Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Steve a'r eglwys yn y pentref ac o amgylch a'r gweithgareddau amrywiol sydd bellach yn ailagor i gyd wedi gwneud argraff arnaf. Bydd yn wych dechrau arni ym mis Medi."

Caplaniaeth Anna gynta Cymru

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n gyflym ac unigrwydd yn her i gynifer, nid yw gweinidogaeth pobl hŷn erioed wedi bod yn bwysicach. Nod Caplaniaeth Anna (sy'n cael ei rhedeg gan Gymdeithas Darllen y Beibl) yw ymateb i hyn, ac mae'r Parch Maggie Rich bellach yn un o'r 'Caplaniaid Anna' cyntaf yng Nghymru. "Pan welais rywbeth am hyn mewn e-bost, sylweddolais mai dyma'r hyn yr oeddwn wedi bod yn aros amdano," meddai Maggie. "Yng nghyfarfodydd ein gweinidogion yn y Drenewydd, roeddem eisoes wedi nodi nad oedd bron dim ar gael yn y cylch i gefnogi pobl hŷn. Mae gan bob un o'r eglwysi ei ffocws cymunedol penodol ei hun ac roedd hyn yn rhywbeth oedd yn iawn i ni."

Ar ôl hyfforddi, cytunodd Cymanfa Maldwyn a Maesyfed y byddent yn dal y drwydded gan ei bod wedyn yn rhoi cyfleoedd iddynt estyn y gwaith y tu hwnt i'r Drenewydd. O fewn y Gymanfa, gweledigaeth Maggie yw siarad ag eglwysi sydd â diddordeb i annog pobl i ddod yn "ffrindiau Anna", a fydd hefyd yn cefnogi pobl oedrannus o'u cwmpas. Mae unigrwydd cefn gwlad yn beth cyffredin yn y Canolbarth, ac yng ngeiriau Maggie, "dyma ein cyfle i estyn allan, i wrando ar straeon pobl ac i gerdded ochr yn ochr â phobl sydd angen gwybod eu bod yn werthfawr. Dim ond ar ddechrau'r daith hon ydw i ond mae'n gyfle cyffrous i ddangos cariad Duw."

Ymreolaeth trwy Amaethyddiaeth

Croesawodd y Methodistiaid yn Affrica rodd o $3.5 miliwn i hyrwyddo amaethyddiaeth o fewn eu heglwysi er mwyn dod yn fwy hunangynhaliol yn ariannol. "Nod y rhaglen hon yw datblygu hunan-gynaliadwyedd ariannol yn ein cynadleodd blynyddol yn Affrica," esbonia Roland Fernandes o'r eglwys Fethodistaidd. "Mae'n ffordd i ni gefnogi ffermwyr wrth iddynt ymdrechu i gefnogi eu hunain a'u cymunedau. Mae'n ymestyn ein hymdrechion i gysylltu'r eglwys mewn cenhadaeth drwy ofalu am y greadigaeth a datblygiad cynaliadwy."

Ymhlith y prosiectau a gefnogir gan y fenter mae ffermydd reis a chadw gwenyn yn Liberia; ffermydd pysgod yn Ivory Coast; indrawn, cassava, a da byw yn Angola; a moch a gerddi marchnad yn Mozambique. Mae'r fenter hon yn rhan o newid ehangach o fewn cenhadaeth Gristnogol tuag at weinidogaeth leol a hunangynhaliol ar draws y De Byd-eang nad ydynt yn dibynnu ar gronfeydd gorllewinol o arian nac yn gysylltiedig â nodau cenhadaeth y gorllewin.

Dadorchuddio dinas danddaearol hynafol

Mae dinas danddaearol wedi'i darganfod yn Midyat, o fewn ffiniau'r Twrci modern, y credir ei bod wedi cartrefu degau o filoedd o Gristnogion sy'n ffoi rhag erledigaeth Rufeinig. Mae Cyfarwyddwr y gwaith archeolegol, Gani Tarkan, yn esbonio sut yr adeiladwyd yr ardal gyntaf fel man cuddio. "Fel y gwyddom, nid oedd Cristnogaeth yn grefydd swyddogol yn yr ail ganrif. Felly roedd rhaid i deuluoedd a grwpiau a drodd i'r ffydd Gristnogol gymryd cysgod mewn dinasoedd tanddaearol er mwyn dianc rhag erledigaeth Rhufain. O bosibl, roedd dinas danddaearol Midyat yn un o'r mannau a adeiladwyd at y diben hwn," parhaodd. "Mae'n lleoliad lle rydym yn credu bod o leiaf 60-70,000 o bobl yn byw dan ddaear ar un adeg!"

Yn ôl archaeolegydd arall ar y prosiect, "Roedd dinasoedd tanddaearol o'r fath yn cadw pobl yn ddiogel, ac roedd hefyd mannau addoliad yno a lleoedd i ddianc iddynt. Mae pydewau, ffynhonnau dŵr a systemau carthffosiaeth wedi eu canfod yn dyddio o'r cyfnod hwnnw." Mae Tarkan a'i gyfoedion yn parhau i ddod o hyd i greiriau, murluniau, mannau addoli a thwneli yn rheolaidd wrth i'r gwaith cloddio barhau, ac mae'n ymddangos bod y cwbl yn cadarnhau'r syniad bod y lle hwn yn cyflawni swyddogaeth debyg i'r catacomau enwog yn Rhufain ond ar raddfa fwy.

Chwith: llun o ddinas fodern Midyat yn Nhwrci, ar wyneb y ddaear...

Ac ar draws...
Y Byd

Deng munud yng nghwmni...

Andrew Ware

Mae yna bobl o bob math yn ein heglwysi, a storïau cyfoethogi o waith Duw yn eu bywydau. Y tro hwn, dyma gwrdd ag aelod yn un o'n heglwysi yng Ngorllewin Morgannwg....

Mae'n dda cael cwrdd â chi, Andrew! Sut daethoch chi yn Gristion felly a sut wnaethoch chi gyrraedd lle rydych chi nawr?

Ges i fy magu mewn teulu Cristnogol yn Sgiwen, fy mam yn annibynwraig a 'nhad yn aelod gyda Byddin yr Iachawdwriaeth. Cefais fy magu gyda throed yn y ddwy eglwys, ond yn fy arddegau dechreuais fynychu grŵp ieuenctid mewn eglwys arall, a thrwy hynny mewn gwirionedd y des i i ffydd yn Iesu. Ar ôl hynny aeth fy ngwaith â mi i wahanol leoedd ym Mhrydain a dyma fi'n mynd i amrywiaeth eang o eglwysi. Ond ers dychwelyd i ardal Castell-nedd rwyf wedi bod yn rhan o Eglwys y Bedyddwyr Ainon, Bryncoch ers bron i 20 mlynedd bellach.

Rydych chi'n Athro Cyfrifiadureg. Sut mae eich bywyd proffesiynol yn ffitio i mewn i'ch ffydd?

Rwy'n gwneud ymchwil i AI neu ddeallusrwydd artiffisial, sy'n golygu gweithio â chyfrifiaduron i'w cael i ddynwared meddwl ac iaith ddynol. Un o'r pethau sy'n deillio o hynny yw fy mod yn gweithio gyda myfyrwyr o lawer o wahanol genhedloedd a chefndiroedd, ac mae hynny'n rhoi persbectif ehangach i berson rwy'n meddwl. Wrth i chi deithio'r byd a chwrdd â phobl mewn lleoedd mor wahanol i Gymru â Phacistan a Vietnam rydych yn sylweddoli bod gan bobl yr un anghenion a dyheadau sylfaenol ym mhobman.

Roeddwn i'n pregethu ar Iesu a'r wraig o Samaria yn ddiweddar – roedd ar Iesu a hithau ill dau angen am ddŵr go iawn ; roedd hynny'n rhywbeth oedd yn eu huno. Rwy'n gweld hyn yn fy ymwneud dyddiol gyda myfyrwyr; nid diystyru Duw mae llawer ohonyn nhw wedi gwneud, ond nad ydyn nhw hyd yn oed wedi meddwl amdano! Mae bod mewn amgylchedd Prifysgol wedi bod o gymorth mawr i'm bywyd Cristnogol ac wedi gwneud i mi weld pa mor bwysig yw hi ein bod yn cael sgyrsiau agored a gonest mewn eglwysi am bynciau mawr, a gwrando ar bobl a'u mannau cychwyn wrth feddwl am ffydd yn Iesu.

Rydych hefyd yn weithgar iawn ym mywyd yr eglwys. A wnewch chi ddweud ychydig wrthym am hynny?

Deuthum yn Weinidog cyswllt yn Ainon Bryncoch ryw ddeng mlynedd yn ôl erbyn hyn. Y peth sy'n fy nghyffroi mewn gwirionedd yw'r syniad o weld yr eglwys yn cael effaith o fewn y gymuned – mae gan yr efengyl y pŵer i newid bywydau go iawn! Rwyf wrth fy modd yn gweld yr eglwys yn cael ei hysgogi i fod yn eglwys y tu allan i ffiniau'r eglwys ei hun. I mi, mae cyfarfod gyda'n gilydd ar ddydd Sul yn fater o'n paratoi i fod allan yn y byd weddill yr amser.

Sut allwn ni weddïo drosoch chi ac Ainon, Andrew?

Rwy'n credu wrth i ni ddod allan o Covid mae gennym fel eglwys awydd gwirioneddol i edrych tuag allan. Mewn ymateb i hynny rydym wedi bod yn hysbysebu am weithiwr all estyn allan i ysgolion a cholegau yn ein hardal – gweddïwch y daw'r person iawn i weithio gyda ni.

Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn hwn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater. Swyddfa gofrestredig:

Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Ffôn: 0345 222 1514 [9-5 Llun - Gwener]

post@ubc.cymru www.ubc.cymru